


# Adroddiad Effaith 2024-2025 Impact Report

Cymorth Cymunedol Gwirfoddol Conwy

Community Voluntary Support Conwy

/conwyvol /conwyvol

Mae CCGC yn sefydliad sy'n bartner i Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CTSC) sy'n rhwydwaith o sefydliadau cymorth ar gyfer y trydydd sector ar draws Cymru sy’n cynnwys y 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol a CGGC.

Community and Voluntary Support Conwy is a partner organisation of Third Sector Support Wales (TSSW) which is a network of support organisations for the whole of the Third Sector in Wales including 19 County Voluntary Councils and WCVA.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WCVA
CGGC

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

Cynnig Cymraeg

We are a Living Wage Employer

Member Organisation
Chartered Institute of Fundraising

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

# Rhagair y Cadeirydd
# *Chair's Foreword*

***Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld CGGC yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn Sir Conwy.***

Yn sail i'r llwyddiannau a nodir yn yr adroddiad hwn mae tîm o staff ymroddedig a gweithgar sydd wedi codi i'r heriau sy'n wynebu'r trydydd sector ar hyn o bryd.

Mae tîm CGGC wedi cynnal ac ymestyn eu darpariaeth o ystod o wasanaethau i sefydliadau, grwpiau ac unigolion lleol i ddarparu cefnogaeth sydd ei hangen yn fawr ac i gynorthwyo gyda datblygu cymunedol.

Ar ran yr holl ymddiriedolwyr, diolch yn fawr iawn i holl staff CGGCnam wneud y gwahaniaeth hwn. Darllenwch ymlaen i weld pam mae hon wedi bod yn flwyddyn effeithiol.

***The past year has seen CVSC truly make an impact within Conwy County.***

*Underpinning the successes detailed in this report is a dedicated and hardworking team of staff who have risen to the challenges currently facing the 3rd sector.*

*The CVSC team have maintained and extended their delivery of a range of services to local organisations, groups and individuals to provide much needed support and to assist with community development.*

*On behalf of all the trustees, a very big thank you to all the staff at CVSC for making this difference. Read on to see why this has been such an impactful year.*

Joanna Tann

# Rhagair y Prif Swyddog
# *Chief Officer's Foreword*

Mae llunio'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i fyfyrio ar yr holl waith gwych a wnawn.

Yn ein cynhadledd Trydydd Sector yn Venue Cymru, croesawyd dros 200 o gyfranogwyr a sefydliadau allweddol gan gynnwys y Comisiwn Elusennau, y Rheoleiddiwr Codi Arian, WCVA, a Pro-Mo Cymru.

Rydym hefyd yn falch o gyhoeddi ein rheolaeth o Gronfa Fferm Wynt Alltraeth Gogledd Hoyle, a gyfrannodd at y £2,608,829 a ddyfarnwyd ar draws Conwy, Sir Ddinbych, a Sir y Fflint o wahanol gronfeydd cyhoeddus a phreifat mae CGGC yn gweinyddu.

Diolch yn arbennig i'r tîm cyfan am eu gwaith caled.

***Compiling this annual report has allowed us to reflect on all the fantastic work we do.***

*At our Third Sector conference at Venue Cymru, we welcomed over 200 participants and key organisations including the Charity Commission, the Fundraising Regulator, WCVA, and Pro-Mo Cymru.*

*We are also pleased to announce our management of the North Hoyle Offshore Wind Farm Fund, which contributed to the £2,608,829 awarded across Conwy, Denbighshire, and Flintshire from various public and private funds administered by CVSC.*

*A special thank you to the entire team for their hard work.*

Elgan Owen

# Yn 2024/25 rhoddodd Cefnogaeth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy cymorth a chefnogaeth ariannol i nifer fawr o sefydliadau

# In 2024/25 Community and Voluntary Support Comwy provided financial aid and support to a large number of organisations

Cyllid a Ddyfarnwyd
Funding Awarded
£2,608,829

Cyllid y Cefnogwyd
Funding Supported
£1,235,427

Nifer y sefydliadau a gefnogwyd
Number of organisations supported
490

Aelodau CCGC
CVSC Members
216

Cyfranogwyr digwyddiad partneriaeth
Partnership event participants
206

Cyfranogwyr Hyfforddiant Wyneb yn Wyneb
Face to Face Training participants
77

# Cynhadledd Trydydd Sector a CCB

Daeth mwy na 200 o gyfranogwyr o sefydliadau yn Sir Conwy a thu hwnt ynghyd yn Venue Cymru ar gyfer ein hail Gynhadledd Trydydd Sector ddydd Gwener, Tachwedd 8, 2024.









# Third Sector Conference and AGM

More than 200 participants from organisations in Conwy County and beyond gathered at Venue Cymru for our second Third Sector Conference on Friday, November 8, 2024.

Roedd y diwrnod yn gyfle gwych ar gyfer ysbrydoliaeth, cydweithio, ac atgyfnerthu ein hymrwymiad cyffredin i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Roedd amrywiaeth eang o sesiynau ar gael gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, ysgrifennu cynigion, cynnwys gwirfoddolwyr ifanc a llawer mwy.







The day was a fantastic opportunity for inspiration, collaboration, and reinforcing our shared commitment to making a positive difference.

A wide variety of sessions were available including Artificial intelligence, Bid Writing, Involving Young Volunteers and many more.



## Cyllid Cynaliadwy

Roedd 2024 - 2025 yn flwyddyn arall lle dorrodd y tîm grantiau ei record drwy fuddsoddi bron i £2.7 miliwn yn ein cymunedau.

## Sustainable Funding

During the 2024-2025 financial year, the grants team at CVSC invested close to £2.7 million into our communities.

Funded by UK Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Loto Lwcus

Yn ogystal â'n harbenigedd mewn grantiau a chyllid, mae CVSC wedi ymrwymo i helpu aelodau'r trydydd sector i amrywio eu hincwm y tu hwnt i geisiadau grant traddodiadol.

Un fenter o'r fath yw ein loteri gymunedol, Loto Lwcus, a lansiwyd yn 2021. Mae'n cynnig ffordd i grwpiau'r trydydd sector ledled Sir Conwy gynyddu eu hincwm drwy wobr wythnosol. Ers ei lansio, mae £40,306.80 wedi'i godi a'i rannu ymhlith 48 o achosion cymeradwy.

Hyd yma eleni, mae Loto Lwcus wedi cyflawni:

- 552 tocyn wedi'u gwerthu
- 48 achos cymeradwy
- £17,222.40 wedi'i godi
- £3,300 wedi'i ennill gan chwaraewyr lleol

Mae Loto Lwcus yn parhau i dyfu, gan gynnig ffynhonnell incwm gynaliadwy i grwpiau lleol. Os hoffech gefnogi achos neu gofrestru eich sefydliad i elwa, sganio'r cod QR isod i ddechrau.

Alongside our expertise in grants and funding, CVSC is committed to helping third sector members diversify their income beyond traditional grant applications.

One such initiative is our community lottery, Loto Lwcus, launched in 2021. It offers third sector groups across Conwy County a way to boost their revenue through a weekly draw.

Since its launch, £40,306.80 has been raised and shared among 48 approved causes.

This year alone, Loto Lwcus has achieved:
552 tickets sold
48 approved causes
£17,222.40 raised
£3,300 won by local players
Loto Lwcus continues to grow, offering a sustainable income stream for local groups. If you'd like to support a cause or register your organisation to benefit, simply scan the QR code below to get started.

# Astudiaeth Achos - grant dan arweiniad ieuenctid

Lansiodd grŵp gweithredu ieuenctid Helpful 1, rhan o glwb ieuenctid 1Compass, fenter casglu sbwriel lwyddiannus yn Hen Golwyn, wedi'i ysbrydoli gan Olly—aelod ifanc angerddol sy'n benderfynol o wneud gwahaniaeth yn ei gymuned.

Gyda chefnogaeth y Grant Dan Arweiniad Ieuenctid, cafodd y grŵp offer casglu sbwriel a dyluniodd festiau gweledol uchel gyda'u logo. Dan arweiniad y gweithiwr ieuenctid Nihal, datblygodd y cyfranogwyr sgiliau bywyd fel cyllidebu, gwaith tîm, a chynllunio. Yn y digwyddiad glanhau cyntaf, cymerodd tri ar ddeg o bobl ifanc ran, gan gasglu pedwar bag mawr o sbwriel a didoli deunyddiau ailgylchadwy i leihau gwastraff.



Derbyniodd y fenter gefnogaeth frwdfrydig gan drigolion, gan hybu balchder a chymhelliant y grŵp.

# Case Study - Youth led grant

The Helpful 1's youth action group, part of the 1Compass youth club, launched a successful litter picking initiative in Old Colwyn, inspired by Olly—a passionate young member determined to make a difference in his community.



Supported by the Youth Led Grant, the group acquired litter picking equipment and designed custom high-visibility vests featuring their own logo. With guidance from youth worker Nihal, participants developed valuable life skills including budgeting, teamwork, and event planning.The project's first clean-up event saw thirteen young people take part, collecting four large bags of litter and sorting recyclables to reduce landfill waste.

The initiative received enthusiastic support from residents, boosting the group's pride and motivation.

# Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog

In 2024, Derbyniodd Snowdonia Glamping Holidays yn Rhydlanfair, Conwy £18,136.12 drwy Gronfa Fusnes Clocaenog i osod paneli solar a storfa batri ar adeilad allanol, gan helpu i leihau costau busnes.

Mae'r system newydd yn cefnogi pympiau gwres ffynhonnell ddaear yn eu bythynnod gwyliau ac yn pweru gwefryddion cerbydau trydan ar y safle. Dywedodd Hazel Barclay, y perchennog: "Y darn olaf o'r jig-so oedd pan ariannodd Clocaenog y paneli solar ar y to fel y gallem gynhyrchu pŵer i gefnogi'r pwmp gwres ffynhonnell ddaear. Bydd hynny'n helpu'r busnes drwy leihau ein biliau trydan – maen nhw'n uchel iawn ar hyn o bryd – ac fe fydd hefyd yn cynhyrchu pŵer ar gyfer ein gwefrydd car trydan."

# Clocaenog Forest Wind Farm Fund

In 2024, Snowdonia Glamping Holidays in Rhydlanfair, Conwy received £18,136.12 through the Clocaenog Business Fund to install solar panels and battery storage on an outbuilding, helping reduce business costs.

The new system supports ground source heat pumps at their holiday cottages and powers electric vehicle chargers on-site. Hazel Barclay, Owner said: "The final piece of the jigsaw was when Clocaenog funded the solar panel on the roof so that we could generate power to support the ground source heat pump. That will help support our business by reducing our electricity bills they are through the roof at the moment, it will also generate power for our electric car charger."

# Cronfa Cymunedol Fferm Wynt Gwynt y Mor

Roedd CVSC yn falch o gefnogi Hosbis Ty Gobaith gyda grant o £75,000 tuag at ystafell gymorth wedi'i hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer gofal diwedd oes, a gwblhawyd yn haf 2024.

Roedd y prosiect gwerth £592,546 yn cynnwys adeiladu, adnewyddu, offer, a gwaith allanol, gan greu gofod hyblyg a chynhaliol i blant a phobl ifanc gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.

Mae'r ystafell newydd hon eisoes wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol. Mae'n galluogi'r hosbis i ofalu am ddau o blant/teuluoedd ar ddiwedd eu hoes—pan nad oedd ond un yn bosibl o'r blaen—tra'n cynnig mwy o breifatrwydd, cysur, ac annibyniaeth.

# Gwynt y Mor Wind Farm Community Fund

CVSC was proud to support Ty Gobaith Hospice with a £75,000 grant towards a purpose-built end-of-life support suite, completed in summer 2024.

The £592,546 project included construction, refurbishment, equipment, and external works, creating a flexible, dignified space for children and young people with life-limiting conditions.

This new suite has already made a profound difference. It allows the hospice to care for two children/families at end-of-life—previously only possible for one—while offering greater privacy, comfort, and independence.



# Ty Gobaith - Hope House





# Snowdonia Glamping



# Cymdeithas Chwaraeon Mochdre
# Sports Association








# Bayside Radio

# Cronfa Cymunedol Fferm Wynt Gwastadir Rhyl

Roedd CCGC yn falch o ddyfarnu £8,000 i Gymdeithas Chwaraeon Mochdre o Gronfa Gymunedol Rhyl Flats tuag at storfa batri ar gyfer eu gosodiad paneli solar newydd, a gwblhawyd yn ystod gwanwyn 2024. Mae cost lawn y prosiect, sef £18,432, eisoes wedi arwain at ganlyniadau trawiadol.

Ar ôl 302 diwrnod o weithrediad, mae'r system wedi arbed 9.16 tunnell o $CO_2$ ac wedi lleihau costau trydan o £1,782 dros naw mis—gyda'r arbedion blynyddol wedi'u hamcangyfrif i gyrraedd £2,350, gan wneud gwahaniaeth ystyrlon i gynaliadwyedd ariannol y clwb.
Wedi'u hannog gan yr arbedion hyn, mae'r Pwyllgor wedi buddsoddi mewn adnewyddu'r bar a'r lolfa, gan wella cyfleusterau i aelodau a thimau sy'n ymweld.

# Rhyl Flats Wind Farm Community Fund

CVSC was pleased to award Mochdre Sports Association £8,000 from the Rhyl Flats Community Fund towards battery storage for their new solar panel installation, completed in spring 2024. The full project cost of £18,432 has already delivered impressive results.

After 302 days of operation, the system has saved 9.16 tonnes of $CO_2$ and reduced electricity costs by £1,782 over nine months—projected to reach £2,350 annually, making a meaningful impact on their financial sustainability.
Encouraged by these savings, the Committee has invested in refurbishing the bar and lounge area, improving facilities for members and visiting teams.

# Cronfa Cymunedol North Hoyle

**Arianwyd Youth Shedz Cymru, gyda £5,580 o Gronfa Gymunedol North Hoyle. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau antur a dau brofiad preswyl, gyda'r nod o feithrin hyder, gwytnwch a chydweithio ymhlith pobl ifanc niwroamrywiol neu'r rhai sy'n profi anawsterau cymdeithasol/addysgol.**

Gan weithio gyda dau grŵp ar wahân—o Brestatyn ac Youth Shedz—creodd y rhaglen amgylchedd diogel a chefnogol lle y bu i 13 o bobl ifanc ymgysylltu'n raddol, meithrin ymddiriedaeth, a ffurfio bondiau cryf fel grŵp.
Roedd yr effaith yn ddwys—gan hybu hunan-barch, sgiliau cymdeithasol, ac ymdeimlad o berthyn. Amlygodd adborth gan rieni werth trawsnewidiol y rhaglen, gan gynnig cynhwysiant a chyfle lle mae hynny'n aml yn brin.

# North Hoyle Community Fund

**Youth Shedz Cymru, funded with £5,580 from the North Hoyle Community Fund. The project ran a series of eight outdoor sessions and two residential experiences, designed to build confidence, resilience, and teamwork among neurodiverse young people and those struggling in social or educational settings.**

Working with two distinct groups—from Prestatyn and Youth Shedz—the programme created a safe, supportive environment where 13 young people gradually engaged, built trust, and formed strong group bonds.
The impact was profound—boosting self-esteem, social skills, and a sense of belonging. Parent feedback highlighted the programme's life-changing value, offering inclusion and opportunity where it's often lacking.

# Cronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol

**Helpodd y gronfa, a arianwyd gan Llywodraeth y DU gryfhau gorsaf gymunedol hanfodol dan arweiniad y gymuned yn Bae Colwyn – Bay Radio.**
**Galluogodd y grant fuddsoddiad mewn offer, capasiti darlledu, a chynhyrchydd rhan-amser i gefnogi awtomeiddio ac ehangu cynnwys gweithredu cymdeithasol.**

Mae Bayside Radio yn cynnig hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli, a llwyfan i leisiau lleol—yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau symudedd, iechyd neu gymdeithasol. Helpodd y cyllid i gadw cyflwynydd gwirfoddol gwerthfawr oedd yn gwella ar ôl trawiad ar y galon, gan ei alluogi i ddarlledu o bell. Mae Bayside bellach yn darparu 35 bwletin newyddion lleol byw yr wythnos ac yn cefnogi partneriaid fel fel Hosbis Dewi Sant a Conwy Mind.

# Voluntary Sector Key Fund

**The UK Government's Shared Prosperity Fund (Voluntary Sector Key Fund), helped strengthen a vital community-led station in Colwyn Bay - Bay Radio.**
**The grant enabled investment in equipment, broadcasting capacity, and a part-time producer to support automation and expand social action content.**

Bayside Radio offers training, volunteering, and a platform for local voices—especially those facing mobility, health, or social barriers.
The funding helped retain a valued volunteer presenter recovering from a heart attack, enabling him to broadcast remotely. Bayside now delivers 35 live local news bulletins weekly and supports partners like St David's Hospice and Conwy Mind.

# Gwirfoddoli

Roedd Amdani! Conwy yn brosiect mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chelfyddydau Anabledd Cymru i gefnogi lleoliadau diwylliannol a threfnwyr digwyddiadau ac yn gweithio gyda'n cymunedau i wneud y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn hwyl, yn hygyrch ac yn gynhwysol.

Recriwtwyd 84 unigolyn i gymryd rhan mewn gwirfoddoli o fewn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.

# Volunteering

Amdani! Conwy was a project in partnership with Conwy County Borough Council and Disability Arts Cymru which supported cultural venues and event organisers and works with our communities to make arts, culture and heritage fun, accessible and inclusive.

Amdani! Conwy recruited 84 individuals to get involved in arts, culture and heritage volunteering.

FUNDED BY
SPIRIT OF 2012
INVESTING IN HAPPINESS

Disability Arts Cymru
Creu Celf

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Amdani! Conwy

## Matthew Flanagan- Marie Curie

Dechreuodd Matthew wirfoddoli gyda Marie Curie fel dirprwy drysorydd, gan gefnogi bancio, casgliadau tuniau a blychau, a chydlynu digwyddiadau. Cafodd ei gyflwyno i'r cyfle gan CVSC, a dechreuodd fel gwirfoddolwr swyddfa gan gymryd mwy o gyfrifoldeb dros amser.

"Po hiraf rydw i wedi bod yn rhan o'r gwaith, y mwyaf o hyder rydw i wedi ennill ac rydw i wedi teimlo'n rhan o rywbeth ystyrlon," meddai.

Wedi'i annog gan ffrind ac wedi'i arwain gan Kasia yn CVSC, daeth Matthew o hyd i wirfoddoli fel ffordd wych o gwrdd â phobl, sefydlu trefn, a rhoi'n ôl i'r gymuned. Ysbrydolodd ei brofiad ef i wneud cais am rolau gyda sefydliadau eraill—un yn cynnig datblygiad gyrfa, ac un arall a ddarganfuwyd mewn ffair wirfoddoli. Mae ei daith yn dangos sut y gall gwirfoddoli feithrin twf personol ac effaith gymunedol.

## Matthew Flanagan - Marie Curie

Matthew began volunteering with Marie Curie as deputy treasurer, supporting banking, tin and box collections, and event coordination. Introduced to the opportunity by CVSC, he started as an office volunteer and gradually took on more responsibility.

"The longer I've been involved, the more I've grown in confidence and felt part of something meaningful," he said.

Encouraged by a friend and guided by Kasia at CVSC, Matthew found volunteering to be a great way to meet people, build routine, and give back to the community. His experience inspired him to apply for roles with other organisations—one offering career development, and another discovered at a volunteering fair. His journey highlights how volunteering can foster personal growth and community impact.

# Llywodraethu

Mae cymorth ac arweiniad i grwpiau a sefydliadau cymunedol i gyflawni arfer da wedi parhau'n flaenoriaeth allweddol i Dîm CCGC.
Mae hyn wedi bod yn hollbwysig wrth i'r sector lywio tirwedd gymhleth sydd wedi'i nodi gan bwysau ariannol cynyddol, newidiadau rheoleiddio, ac anghenion cymunedol sy'n esblygu. Mewn ymateb i'r heriau hyn, bu pwyslais cynyddol ar ddatblygiad sefydliadol.
Rydym wedi gweithio gyda llawer o grwpiau i geisio cryfhau eu strwythurau llywodraethu, gan gynnwys drwy fabwysiadu cyfansoddiadau mwy cadarn ac ystyried ymgorffori.
Caiff y duedd hon ei llywio gan nifer o ffactorau, gan gynnwys mwy o atebolrwydd, heriau codi arian, llywodraethu effeithiol a chydymffurfiaeth reoleiddiol.

# Governance

Support and guidance for community groups and organisations to meet good practice has remained a key priority for the CVSC Team.
This has been crucial as the sector navigates a complex landscape marked by increasing financial pressures, regulatory changes, and evolving community needs. In response to these challenges, there's been a growing emphasis on organisational development.
We have worked with many groups seeking to strengthen their governance structures, including by adopting more robust constitutions and considering incorporation.
This trend is driven by a number of factors, including increased accountability, fundraising challenges, effective governance and regulatory compliance.

# Astudiaeth Achos

Roedd CVSC yn falch o gefnogi datblygiad menter gymdeithasol newydd ar y Gogarth, Llandudno. Arweiniwyd yr adfywiad gan Robin Hughes, hyfforddwr golff lleol, a adferodd cwrs ‘pitch and putt’ 9 twll a oedd wedi’i esgeuluso ers 2020.

Roedd gweledigaeth Robin yn glir: sefydlu CIC sy’n cynnig gwersi cynhwysol, gwasanaeth dwyieithog, a gofal am yr ardal SSSI gyfagos. Sefydlwyd CIC gyda llywodraethu cadarn, cefnogaeth gymunedol, a chynllun busnes cryf.

Mae’r tîm yn dod â sgiliau amrywiol – o gyllid i letygarwch – ac yn ymrwymedig i ymgysylltu â grwpiau ymylol a hyrwyddo hanes cyfoethog Llandudno.

Mae CVSC yn parhau i ddarparu cymorth wedi’i deilwra i sicrhau llwyddiant y fenter.

Mae’r prosiect hwn yn dangos sut y gall chwaraeon, treftadaeth a datblygu cymunedol gydweithio i greu ased cynaliadwy a chynhwysol i’r ardal leol.

# Case Study

CVSC was proud to support the development of a new social enterprise on the Great Orme, Llandudno. Local golf coach Robin Hughes led the revival of a disused 9-hole pitch and putt course—once a cherished part of the town’s sporting heritage.

Robin’s vision was clear: create a community-focused CIC offering inclusive golf lessons, bilingual services, and environmental stewardship of the adjacent SSSI.


A CIC was formed with strong governance, community buy-in, and a robust business plan at its core.

The team brings a wide range of skills—from finance to hospitality—and is committed to engaging marginalised groups and promoting Llandudno’s rich history.


CVSC continues to provide tailored support, ensuring the CIC thrives.

This project demonstrates how sport, heritage, and community development can come together to create a sustainable, inclusive local asset.

# Crynodeb Cyllidol
# Financial Summary




## Incwm - Income
## £3,141,625




## Gwariant- Expenditure
## £3,131,435



Cymorth
Cymunedol
Gwirfoddol
Conwy

Community
Voluntary
Support
Conwy

/conwyvol

/conwyvol

**cvsc.org.uk**

Elusen Gofrestredig / Registered Charity 1151397 Cwmni
Cyfyngedig drwy Warant / Company Limited by Guarantee
3867751